Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd

Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles

Cyflwyniad

Mae iechyd, diogelwch a lles yr holl bobl sy'n gweithio neu'n dysgu yn ein hysgol ni yn hanfodol bwysig. Ein nod yw darparu amgylchedd gwaith diogel, a phleserus i bawb. Mae'r corff llywodraethu, ynghyd â'r AALl, yn gyfrifol am amddiffyn iechyd a diogelwch yr holl blant ac aelodau o'r staff.

Cwricwlwm yr ysgol

Rydym yn addysgu'r plant ynghylch iechyd a diogelwch er mwyn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth iddynt a fydd yn eu galluogi i fyw bywydau cadarnhaol, llwyddiannus a iach. Mae athrawon yn cymryd pob cyfle i addysgu'r plant yn hyn o beth fel rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol. Er enghraifft, yn y cwricwlwm daearyddiaeth, Cyfnod Allweddol 1, ceir uned o'r enw 'Pobl sy'n ein Helpu', sy'n ymwneud â gwaith yr heddlu a'r gwasanaethau tân. Yn y pwnc hwn, rydym yn dysgu'r plant am berygl tân a sut i osgoi damweiniau. Yn yr un modd, drwy'r cwricwlwm gwyddoniaeth, rydym yn addysgu'r plant am ddeunyddiau peryglus, a sut i drin cyfarpar yn ddiogel.

Rydym yn addysgu'r plant i barchu eu cyrff, a sut i ofalu amdanynt eu hunain. Rydym yn trafod y materion hyn gyda'r plant mewn gwersi ABCh, ac rydym yn atgyfnerthu'r pwyntiau hyn mewn dylunio a thechnoleg, lle mae'r plant yn dysgu am fwyta'n iach a hylendid. Rydym hefyd yn dangos iddynt sut i symud a chwarae'n ddiogel mewn gwersi AG.

Mae materion Iechyd a Diogelwch hefyd yn codi wrth i ni addysgu gofalu am yr amgylchedd, ac ymwybyddiaeth o beryglon sbwriel. Mae plant Cyfnod Allweddol 2 yn cael addysg cyffuriau a rhyw a pherthnasoedd (gweler y polisïau perthnasol).

Credwn y gall pawb ac y dylai pawb yn ein hysgol hyrwyddo diogelwch pawb, felly rydym yn hyfforddi'r plant i weld peryglon yn yr ystafell ddosbarth neu o gwmpas yr ysgol, a rhoi gwybod i'w hathrawon.

Mae ein hysgol yn hybu lles a thwf ysbrydol y plant drwy'r cwricwlwm AGr, drwy ddigwyddiadau arbennig, megis gŵyl y cynhaeaf, a thrwy'r weithred ddyddiol o addoli ar y cyd.

Mae pob dosbarth yn cael cyfle i drafod problemau neu faterion sy'n achos pryder gyda'u hathrawon. Mae athrawon yn defnyddio amser cylch i helpu'r plant i drafod a goresgyn unrhyw ofnau a phryderon sydd ganddynt. Rydym yn ymdrin â'r materion hyn yn sensitif.

Prydau ysgol

Mae ein hysgol yn rhoi cyfle i blant gael pryd amser cinio. Os yw rhieni'n derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Chwilio am Waith neu Gredyd Treth Plant (gydag incwm sy'n is na therfyn penodol), gallant hawlio prydau ysgol am ddim i'w plant. Ceisiwn wneud yr hyn a allwn i sicrhau bod y prydau a ddarperir yn faethlon, yn unol â gofynion Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Mae gan blant o dan bum mlwydd oed, y mae eu rhieni'n derbyn y budd-daliadau uchod, yr hawl i laeth am ddim bob dydd.

Os bydd plant yn dewis dod â'u pecyn cinio, rydym yn darparu lle addas iddynt i'w fwyta, ac rydym yn eu goruchwylio yn ystod yr amser hwn.

Mae ein hysgol yn hybu ffordd iach o fyw. Am fod losin yn gallu niweidio dannedd plant, nid ydym yn caniatáu bwyta losin yn yr ysgol – gwerthir ffrwythau yn y siop ffrwythau ac mae'r plant yn gallu cael dŵr yfed o ffynonellau dŵr.

Gwisg ysgol

Ein polisi yw bod pob plentyn sy'n dod i'r ysgol yn gwisgo'r wisg ysgol, neu pan fydd yn cymryd rhan mewn digwyddiad a drefnir gan yr ysgol, hyd yn oed os ydyw y tu allan i oriau arferol yr ysgol.

Rydym yn cymryd ymagwedd sensitif at reoliadau gwisg ysgol lle maent yn mynd yn groes i gredoau crefyddol neu ddiwylliannol plentyn. Rydym wedi llunio rheoliadau ynghylch cydnabod amrywiaeth diwylliannol yn hyn o beth, ac mae'r rhain yn datgan nad ydym yn gwahaniaethu ar sail hil, cred na rhyw.

Cyfrifoldeb y pennaeth yw sicrhau bod y polisi gwisg ysgol yn cael ei orfodi. Serch hynny, nid yw'n bolisi gennym i wahardd plant o'r ysgol os nad oes ganddynt y wisg ysgol briodol, am ba reswm bynnag.

Gofynnwn i rieni ddarparu'r wisg ysgol a'r offer ysgol priodol ar gyfer eu plant. Os yw plentyn yn mynychu'r ysgol dro ar ôl tro heb wisgo'r wisg ysgol briodol, byddwn yn cysylltu â'r rhieni ac yn gofyn iddynt sicrhau bod eu plentyn yn dod i'r ysgol yn y wisg ysgol briodol. Os bydd rhiant mewn trafferthion ariannol, ac mae hynny yw'r rheswm dros y ffaith nad oes gan y plentyn wisg ysgol, neu offer digonol, bydd ein hysgol yn gwneud popeth o fewn ei gallu i gefnogi'r rhiant. Gofynnwn i rieni beidio ag anfon eu plant i'r ysgol â steil gwallt eithafol, neu'r math o olwg a fydd yn tynnu sylw. Gofynnwn i rieni drafod golwg eu plant gyda ni os yw'n fater crefyddol nad ydym yn ymwybodol ohono.

Ar sail iechyd a diogelwch, nid ydym yn caniatáu i blant wisgo tlysau i'r ysgol. Yr eithriad yw stydiau clustdlysau mewn clustiau sydd wedi'u tyllu. Gofynnwn i blant naill ai dynnu'r rhain yn ystod gwersi AG neu chwaraeon, neu eu gorchuddio â phlaster.

Amddiffyn Plant

Y person a enwir sy'n gyfrifol am amddiffyn plant yn ein hysgol ni yw **Mrs Gwenda Francis**, sy'n cydgysylltu â llywodraethwr a enwir. Byddwn yn dilyn y gweithdrefnau ar gyfer amddiffyn plant a luniwyd gan yr AALl a'r Corff Llywodraethu.

Os yw athrawon yn amau bod plentyn yn eu dosbarth yn dioddef camdriniaeth, ni ddylent geisio ymchwilio i'r mater, ond yn hytrach hysbysu'r person a enwir uchod ynghylch eu pryderon.

Wrth ymchwilio i ddigwyddiadau neu amheuon, mae'r sawl sy'n gyfrifol am amddiffyn plant yn yr ysgol yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaethau cymdeithasol, a'r Pwyllgor Amddiffyn Plant Lleol (ACPC). Rydym yn ymdrin ag achosion o'r fath yn ofalus, ac rydym yn pwysleisio budd y plentyn uwchlaw popeth.

Gofynnwn i'r holl oedolion sy'n gweithio yn ein hysgol ddilysu eu cais am swydd gan yr heddlu, er mwyn cadarnhau nad oes tystiolaeth o droseddau'n ymwneud â phlant neu gam-drin.

Mae'r holl oedolion yn ein hysgol yn gyfrifol am gadw ein plant yn ddiogel. Gallwn o dro i dro adrodd am bryderon, sydd, o'u harchwilio, yn ddi-sail. Serch hynny, gwell diogel nag edifar, a gobeithio y bydd rhieni, er efallai wedi'u tristáu, yn derbyn bod yr ysgol wedi gweithredu er lles y plentyn.

Diogeledd yr ysgol

Er ei bod yn anodd diogelu safle'r ysgol yn llwyr, byddwn yn gwneud yr hyn a allwn i sicrhau bod yr ysgol yn ddiogel ar gyfer pawb sy'n gweithio neu'n dysgu yma. Rydym yn adolygu'r camau diogelwch yn rheolaidd, ac yn defnyddio cyngor arbenigwyr (e.e. swyddogion yr heddlu, swyddogion y gwasanaeth tân, penseiri ac ymgynghorwyr eraill).

Os yw oedolyn sy'n gweithio yn yr ysgol yn amau bod rhywun yn tresmasu ar safle'r ysgol, dylid hysbysu'r pennaeth ar unwaith. Bydd y pennaeth yn rhybuddio'r tresmaswr i adael safle'r ysgol ar unwaith. Os bydd y pennaeth yn pryderu y gallai'r tresmaswr achosi niwed i rywun ar safle'r ysgol, bydd yn cysylltu â'r heddlu

Diogelwch y plant

Cyfrifoldeb yr holl athrawon yw sicrhau bod holl weithgareddau'r cwricwlwm yn ddiogel. Yn yr un modd, bydd arweinwyr pwnc bob amser yn ymwybodol o beryglon cyfarpar neu weithgareddau sy'n ymwneud â'u meysydd cyfrifoldeb hwy. Os bydd unrhyw athro/athrawes neu arweinydd pwnc yn pryderu am ddiogelwch disgyblion, dylent grybwyll hynny wrth y pennaeth cyn i'r gweithgaredd arbennig hwnnw ddigwydd eto.

Nid ydym yn mynd â phlant oddi ar safle'r ysgol heb ganiatâd rhieni ymlaen llaw.

Os bydd damwain yn digwydd a phlentyn yn cael ei anafu, bydd yr athro/athrawes yn gwneud popeth o fewn eu gallu i helpu'r plentyn hwnnw. Rydym yn cadw bocsys

cymorth cyntaf yn yr ystafell AAA. Mae staff yn yr ysgol wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf.

Petai damwain yn digwydd a phlentyn yn cael ei anafu, bydd un o'r aelodau o'r staff hyfforddedig yn cynorthwyo. Os bydd angen, bydd y staff yn ffonio am gymorth brys.

Rydym yn cofnodi pob digwyddiad lle cafwyd anafiadau yn llyfr log yr ysgol, ac ym mhob achos byddwn yn hysbysu'r rhieni. Os bydd plentyn yn cael ei anafu'n ddifrifol, rydym yn cysylltu â'r rhieni drwy'r rhif ffôn argyfwng sydd gennym ar ffeil. Mae'r rhifau hyn yn cael eu diweddaru bob blwyddyn, ond mae'n hanfodol i rieni ddweud wrthym os yw'r manylion cysylltu'n newid.

Mewn achosion prin, bydd rhaid i athrawon rwystro disgybl yn gorfforol, i'w atal rhag anafu eraill, ei anafu ei hun, niweidio eiddo, neu os yw'n ymddwyn yn aflonyddgar. Mewn achosion o'r fath, byddwn yn defnyddio'r grym gofynnol yn unig, a'r unig weithred fydd rhwystro'r disgybl. Os bydd angen rhwystro, bydd adroddiad ysgrifenedig yn dilyn.

Tân a gweithdrefnau argyfwng eraill

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer tân a gwacáu arall mewn argyfwng wedi'u harddangos yn amlwg ym mhob ystafell. Cynhelir dril tân bob tymor. Trefnir bod yr holl gyfarpar atal tân yn cael ei fonitro'n rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys archwiliad gweledol o'r diffoddiaduron tân, a phrofi'r system larwm tân.

Ymweliadau addysgol

Mae'r ysgol yn cymryd ei chyfrifoldeb am sicrhau diogelwch y plant o ddifrif pan fyddant ar wibdeithiau'r ysgol (gweler hefyd y polisi ar gyfer Ymweliadau Oddi-ar-y-Safle).

Gwregysau diogelwch

Nid ydym yn defnyddio bysus a bysus mini os nad oes gwregysau diogelwch wedi'u darparu. Rydym yn mynnu bod y plant yn defnyddio gwregysau diogelwch tra bod y bws yn symud.

Meddyginiaeth

Bydd gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ryw bryd gyflwr sy'n gofyn am feddyginiaeth. I lawer, rhywbeth tymor byr fydd hwn – efallai rhywbeth sy'n gofyn am absenoldeb byr iawn o'r ysgol. Serch hynny, er bod y plentyn efallai'n ddigon iach i ddychwelyd i'r ysgol, efallai bod angen cymryd y feddyginiaeth yn ystod y diwrnod ysgol am gyfnod byr. Mewn achosion o'r fath, disgwylir i rieni ymweld, efallai yn ystod yr awr ginio, i weinyddu'r feddyginiaeth eu hunain (ar ôl galw'n gyntaf yn y swyddfa).

Ar y llaw arall, pan fo gan blant anghenion meddygol tymor hi, rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i'w galluogi i fod yn yr ysgol. Rhaid i rieni roi manylion cyflwr

y plentyn a'r feddyginiaeth i ni, a dod â'r feddyginiaeth i'r ysgol mewn cynhwysydd diogel â label arno. Bydd cofnodion o'r holl feddyginiaeth a dderbynnir ac a weinyddir gan yr ysgol.

Diogelwch y Rhyngrwyd

Rydym yn defnyddio'r rhyngrwyd yn rheolaidd yn yr ysgol, oherwydd bod ganddo gynifer o fanteision addysgol. Er mwyn lleihau'r perygl o blant yn dod ar draws deunydd anaddas, rydym yn goruchwylio'n barhaus, ac rydym yn defnyddio gwasanaeth sydd wedi'i hidlo'n unig, dolenni cyswllt a ddetholwyd, a pheiriannau chwilio sy'n cynorthwyo plant. Rydym hefyd yn ceisio caniatâd rhieni cyn defnyddio ffotograffau o'r plant wrth eu gwaith ar wefan yr ysgol, neu mewn cylchlythyron a chyhoeddiadau eraill.

Lladrad neu weithredoedd troseddol eraill

Bydd yr athrawon neu'r pennaeth yn ymchwilio i unrhyw ladradau sy'n ymwneud â'r plant. Os ceir lladradau difrifol o safle'r ysgol, bydd y penaethiaid yn hysbysu'r heddlu ac yn cofnodi'r digwyddiad mewn llyfr digwyddiadau.

Os bydd unrhyw ddigwyddiad lle ceir trais corfforol yn erbyn athro/athrawes, byddwn yn hysbysu'r Bwrdd Gweithredol Iechyd a Diogelwch am hyn, ac yn cefnogi'r athro/athrawes dan sylw os bydd ef/hi'n dymuno hysbysu'r heddlu am y digwyddiad.

Iechyd a lles y staff

Mae'r angen i ddiogelu iechyd a lles ein holl staff yn bwysig iawn. Mae hyn yn cynnwys eu datblygiad proffesiynol, yr ydym yn cyfeirio ato yn ein polisi DPP. Rydym hefyd yn rhoi sylw i asesu ac atal straen yn y gweithle, gan gydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Os bydd aelod o'r staff yn dioddef o straen yn y gwaith, dylai hysbysu'r pennaeth ar unwaith.

Ni fydd yr ysgol yn goddef trais, ymddygiad bygythiol na sarhad uniongyrchol yn erbyn staff yr ysgol. Os bydd digwyddiadau o'r fath, bydd yr ysgol yn ei ystyried yn ddifrifol, ac yn gweithredu'n unol â phrotocol yr AALl ynghylch yr ysgol a'r heddlu.

Monitro ac adolygu

Mae gan y corff llywodraethu lywodraethwr a enwir sy'n gyfrifol am faterion iechyd a diogelwch. Cyfrifoldeb y llywodraethwr yw hysbysu'r corff llywodraethu am y rheoliadau newydd ynghylch iechyd a diogelwch, a sicrhau bod yr ysgol yn adolygu ei gweithdrefnau ynghylch materion iechyd a diogelwch yn rheolaidd. Rhaid i'r llywodraethwr hwnnw hefyd gydgysylltu â'r AALl ac asiantaethau eraill i sicrhau bod gweithdrefnau'r ysgol yn cydymffurfio â'r rheiny o eiddo'r AALl.

Mae'r corff llywodraethu, mewn ymgynghoriad ag ymgynghorwyr proffesiynol, yn cwblhau asesiadau risg yn rheolaidd, gyda'r amcan o gadw amgylchedd yr ysgol yn ddiogel.

Mae’r pennaeth yn gweithredu polisi iechyd, diogelwch a lles yr ysgol bob dydd, ac yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o fanylion y polisi fel y mae’n berthnasol iddynt hwy. Mae’r pennaeth hefyd yn adrodd i’r corff llywodraethu’n flynyddol am faterion iechyd a diogelwch.